Iorwerth – D, Peniarth 32, f. 71v
Gwerth Offer

Llyma a weles Jorwerth uab Madawc y vot yn gryno y ysgriuennu: gwerth y tei a'r dootrefyn, a'r kyuar, a llwgyr yt. Kyntaf yw onadunt, pwy bynnac a distrywho neuad brenhin, talet deu ugeint o bop gauael o'r a gynhalyo y nenn. Sef yw hynny: chwech colofyn a phedwar ugeint ar y nenn, a chweugeint ar bob vn o'r godei. Ty mab uchelwr: vgeint o bop gauael a gynhalyo y nenn, a deugeint ar y nenn, a thrugeint ar bop un o'e odei. Hafty: pedeir keinhawc; kynhaeafty: wyth keinhawc. Pwy bynnac a vriwho ty yn agkyfreithawl, talet pedeir keinhawc am bop pren bras y am y doreu a'r amhinyogeu a'r trosteu a'r tulatheu. Am y pentan, pedeir keinhawc. Am bop pawl a gwialen a chledreu: keinhawc. Y polyon sang a'r keibreu, keinhawc. Gwspren, keinhawc; assaeth, keinhawc. To y tei a'e hachwre, traean gwerth y tei a vyd arnadunt, a thraean gwerth y to a vyd ar yr achwre.

Iorwerth – D
Gwerth Offer

Dyma a welodd Iorwerth ap Madog ei fod yn gryno ei ysgrifennu: gwerth y tai a'r dodrefn, a'r cyfar, a llwgr ŷd. Cyntaf ohonynt yw, pwy bynnag a ddistrywio neuadd y brenin, taled ddeugain ar gyfer pob gafael a gynhalio'r nen. Dyma yw hynny: chwe cholofn a phedwar ugain ar y nen, a chweugain ar bob un o'r tai allan. Tŷ mab uchelwr: ugain ar gyfer pob gafael a gynhalio'r nen, a deugain ar y nen, a thrigain ar bob un o'i dai allan. Hafdy: pedair ceiniog; cynaeafdy, wyth ceiniog. Pwy bynnag a ddifrodo dŷ yn anghyfreithiol, taled bedair ceiniog am bob pren bras sydd o amgylch y dorau a'r pyst a'r trawstiau a'r tylathau. Am y pentan, pedair ceiniog. Am bob polyn a gwialen a'r cledrau: ceiniog. Y polion sang a'r ceibrau, ceiniog. Gwasgbren, ceiniog; aseth, ceiniog. To'r tai a'u hachwre, bydd traean gwerth y tai arnynt, a bydd traean gwerth y to ar yr achwre.

Blegywryd – I, Peniarth 38, f. 43v
Cathod

Gwerth kath a warchatwo yscubawr brenhin or lledir neu or dygir ledrat: y phen a ossodir y waeret ar lawr glan gwastat, a'e lloscwrn a drychefir y vynyd, a'e daly velly, a dineu grawn gwenith ymdanei hyny gudyo blaen y lloscwrn. Hyn vyd y gwerth ony cheffir y grawn: dafat vlith a'e hoen a'e gwlan. Gwerth kath arall: pedeir keinhawc kyfreith. Teithi kath a phob llwdyn nyt ymborther ar eu llaeth: trayan y werth neu werth y thorllwyth. Y neb a wertho kath, bit y deni na bo kathderic ar pop lloer, ac nat ysso y chenawon, a'e bot yn gyfglust, gyflygat, gyfdanhed, gyfiewin, gyfloscwrn, a llad llygot.

Blegywryd – I
Cathod

Gwerth cath a warchodo ysgubor brenin os lleddir hi neu os dygir hi yn lladrad: gosodir ei phen ar i waered ar lawr glân gwastad, a chodir ei chynffon i fyny, a'i dal felly, a thywallt grawn gwenith o'i hamgylch hyd nes y cuddio flaen ei chynffon. Hyn fydd ei gwerth oni cheir y grawn: dafad flith a'i hoen a'i gwlân. Gwerth cath arall: pedair ceiniog cyfraith. Teithi cath a phob anifail nad ymborther ar ei laeth, traean ei werth neu werth ei thorllwyth. Pwy bynnag a wertho gath, dylai warantu na bo'n gathderig ar bob lleuad, ac na fyddo'n bwyta ei chenawon, a'i bod yn gyflawn o glustiau a llygaid a dannedd ac ewinedd a chynffon, a'i bod yn lladd llygod.

Cyfnerth – Mk, Llawysgrif Bodorgan, f. 44v
Coed

Ewen sant, punt a tal. Derwen, wheugeint a tal. Pop keing arbenhic o'r derwen, dec ar hugeint a tal. Keig arall, pymthec a tal. Y neb a tyllo derwen trwydi, trugeint a tal. Ffawyden, whe vgeint a tal. Keing vcheluar, trugeint a tal. Auallen per, trugeint a tal. Auallen sur, dec ar hugeint a tal. Collen, pymthec a tal. Ywen coet, pymthec a tal. Draen, seith a dimei a tal. Pop pren arall gwedy hynny, pedeir keinhawc kyfreith a tal. Y neb a latho derwen ar ford brenhin, talet tri buhyn camlwrw y'r brenhin. A phan el y brenhin heibaw, cudyet von y pren a brethyn vn lliw, a thalet werth y pren. Ac arllwysset y fford y'r brenhin. Or dygwyd pren ar traws auon a thynnu magleu arnaw, perchennawc y tir y bo bon y pren arnaw a dyly y doefot, py le bynhac y trosso y dwfyr y bric.

Cyfnerth – Mk
Coed

Ywen sant, punt yw ei gwerth. Derwen, chweugain yw ei gwerth. Pob cangen arbennig o'r dderwen, deg ar hugain yw ei gwerth. Cangen arall, pymtheg yw ei gwerth. Pwy bynnag a dyllo dderwen trwyddi, trigain yw ei gwerth. Ffawydden, chweugain yw ei gwerth. Cangen sydd yn cyrraedd y brig, trigain yw ei gwerth. Afallen bêr, trigain yw ei gwerth. Afallen sur, deg ar hugain yw ei gwerth. Collen, pymtheg yw ei gwerth. Ywen goed, pymtheg yw ei gwerth. Draenen, saith a dimai yw ei gwerth. Pob pren arall wedi hynny, pedair ceiniog cyfraith yw ei werth. Pwy bynnag a dorro dderwen ar ffordd y brenin, taled dair buwch yn gamlwrw i'r brenin. A phan êl y brenin heibio, cuddied fôn y pren â brethyn o'r un lliw [ag ef], a thaled werth y pren. A pharatoed y ffordd i'r brenin. Os disgyn pren ar draws afon a maglu pethau arno, perchennog y tir y bo bôn y pren arno sydd â'r hawl i'r pethau, pa le bynnag y bydd y brig yn croesi'r dŵr.